

# Protocol ar gyfer Rheoli Hunan-niwed yn y Gymuned

Byrddau Diogelu Cwm Taf	Dyddiad: Mai 2016	Statws: DRAFFT TERFYNOL – FERSIWN 4
Awdur: Cwm Taf UHB/PPG	Fersiwn blaenorol: Mehefin 2014	Dyddiad adolygu: Mehefin 2017

# **BWRDD DIOGELU CWM TAF**

## **Protocol ar gyfer Rheoli Hunan-niwed yn y Gymuned**

### **Cyflwyniad**

Mae'r protocol hwn yn cefnogi gweithrediad y Strategaeth ar gyfer Lleihau Hunanladdiad a Hunan-niwed gan Bobl Ifanc yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful drwy ddarparu gwybodaeth i staff proffesiynol ynghylch sut i reoli datgeliadau neu amheunon o hunan-niwed ymhlith plant a phobl ifanc.

Nodau'r strategaeth sy'n berthnasol i'r protocol hwn yw:

- Darparu ymyrraeth a chymorth cynnar er mwyn lleihau risg ac atal problemau a allai arwain at ymddygiad sy'n gysylltiedig â hunanladdiad a hunan-niwed; ac
- Ymateb i argyfwng personol fel y gallai'r rheini sy'n wynebu'r risg fwyaf neu sy'n profi argyfwng gael cymorth i reoli'r problemau sy'n eu hwynebu a lleihau difrifoldeb y problemau hynny.

Yr hyn a argymhellir er mwyn cyflawni'r nodau hyn yw y dylai asiantaethau:

- Weithio mewn partneriaeth i ddatblygu a gweithredu llwybr sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn adnabod a chyfeirio pobl ifanc sydd ag iselder neu dueddiad at hunanladdiad neu hunan-niwed.

Mae hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth hunanladdiad a hunan-niwed ar gael yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful i helpu staff ddeall mwy am yr ymddygiadau hyn a sut orau i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gyflawni hunanladdiad neu hunan-niwed.

### **Cyfrifoldebau Sefydliadol**

Dylai pob asiantaeth sicrhau bod staff yn ymwybodol o brotocolau a chanllawiau sefydliadol i'w dilyn yng nghyd-destun ymddygiad sy'n gysylltiedig â hunan-niwed a hunanladdiad. Dylent hefyd sicrhau bod staff wedi derbyn yr hyfforddiant priodol.

Mae dyletswydd ar bob aelod o staff i ddiogelu plant, a disgwylir iddynt ddeall eu cyfrifoldebau diogelu.

### **Cyfrifoldebau Staff**

Dylai pob aelod o staff fod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn achosion pan fydd plentyn neu berson ifanc yn datgelu bwriad i hunan-niweidio neu

# BWRDD DIOGELU CWM TAF

i'w ladd ei hun, neu pan fyddant yn amau y gallai bwriadau o'r fath fod yn bosibilrwydd. Er enghraifft gall fod dulliau adrodd penodol ar waith.

Dylid cymryd pob datgeliad o ddifri a dylai staff osgoi eu diystyru fel rhywbeth annilys.

Dylid ymddwyn yn ddigynnwrf a di-feirniadaeth. Waeth beth y teimlwch y tu mewn, mae'n rhaid i chi wneud eich gorau i aros yn ddigynnwrf ac yn gefnogol. Gallai'r person ifanc deimlo embaras, yn ofnus ac yn fregus ar yr adeg yma.

Peidiwch â dangos unrhyw anghymeradwyaeth, braw neu ffieidd-dod. Gallai hyn fod yn anodd ond mae'r ffordd y byddwch chi'n ymateb yn bwysig – mae angen i'r person ifanc deimlo eich bod yn ei dderbyn a'i ddeall.

Dylech annog y person ifanc i fod yn agored gyda chi a dylech dawelu ei feddwl bod y gefnogaeth sydd ei hangen ar gael os yw'n barod i siarad. Ni fydd siarad am hunan-niweidio yn gwneud y sefyllfa'n waeth neu'n gwneud i'r person ifanc hunan-niweidio mwy. Dylech gadw mewn cof y gall ei chael hi'n anodd mynegi sut mae'n teimlo, felly rhwch amser iddo/iddi siarad. Byddwch yn onest gyda'r person ifanc am eich cyfyngiadau chi o ran cyfrinachedd.

Gwrandewch ar yr hyn y mae'r person ifanc yn ei ddweud wrthy ch chi gan fod hyn yn allweddol i'r gefnogaeth ar ei gyfer.

Serch hynny, byddwch yn ymwybodol o'ch cyfyngiadau. Dylech ond wneud yr hyn rydych yn gyfforddus yn ei wneud a dylech geisio'r cymorth a'r gefnogaeth briodol ar gyfer y person ifanc. Bydd angen i chi ystyried eich perthynas gyda'r person ifanc a sut y bydd hyn yn effeithio ar y ffordd y byddwch yn gweithio gydag ef neu hi yn y dyfodol. Mae hefyd yn bwysig eich bod yn ystyried sut rydych chi'n gofalu am eich hun a sicrhau eich bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnoch chi yn bersonol.

Dylech sicrhau eich bod yn cwblhau'r ddogfennaeth berthnasol ar gyfer y digwyddiad hwn fel bod cofnod clir o'r hyn a ddigwyddodd a'r camau a gymerwyd gennych. Dylech roi gwybod i'ch rheolwr llinell a/neu'r arweinydd diogelu fel y bo'n briodol fel eu bod yn ymwybodol eich bod yn gweithio gyda rhywun sy'n hunan-niweidio a sicrhau eich bod yn derbyn y lefel briodol o gymorth a goruchwyliaeth.

## **Ar gyfer datgeliadau ynghylch hunan-niwed**

Dylech osgoi gofyn i'r person ifanc ddangos ei greithiau neu ddisgrifio'i hunan-niwed. Bydd monitro'r anafiadau yn weledol yn canolbwyntio ar hynny yn hytrach na'r problemau gwaelodol.

# BWRDD DIOGELU CWM TAF

Serch hynny, dylech wirio a yw'r person ifanc wedi'i anafu nawr fel y gellir delio ag unrhyw faterion meddygol ar unwaith. Rhowch gyngor mewn modd sensitif a gofynnwch am gymorth cyntaf fel y bo angen.

Dylech osgoi gofyn i'r person ifanc i roi'r gorau i hunan-niweidio. Os mai hwn yw ei ffordd o ymdopi, ni allwch ddileu hyn hyd nes y bydd y person ifanc yn barod i newid hynny am ffordd arall o ymdopi. Mae dweud wrtho/wrthi am roi'r gorau iddi yn nawddoglyd ac yn anghymhellol. Yn yr un modd, dylid hefyd osgoi sefydlu contract er mwyn rhoi'r gorau iddi gan y gall achosi mwy o bwysau a gwneud i'r person ifanc ddweud celwydd ac ymddwyn yn fwy cyfrin, a all wedyn gynyddu ei risg o niwed difrifol.

Dylech gyfeirio'r person ifanc at aelod arall o staff proffesiynol / gwasanaeth lle y bo'n briodol. Ni ddylech addo na fyddwch chi'n gofyn cyngor gan eraill a dylech fod yn onest ynghylch eich cyfyngiadau o ran cyfrinachedd. Os bydd rhaid i chi roi gwybod i / siarad ag eraill, mae'n well gwneud hynny o flaen y person ifanc, a dylid ei gynnwys yn y sgwrs, gyda pharch, lle bynnag y bo'n bosibl.

Dylech sicrhau eich bod yn cwblhau'r ddogfennaeth berthnasol ar gyfer y digwyddiad hwn fel bod cofnod clir o'r hyn a ddigwyddodd a'r camau a gymerwyd gennych. Dylech roi gwybod i'ch rheolwr llinell a/neu'r arweinydd diogelu fel y bo'n briodol fel eu bod yn ymwybodol eich bod yn gweithio gyda rhywun sy'n hunan-niweidio a sicrhau eich bod yn derbyn y lefel briodol o gymorth a goruchwyliaeth.

## **Ar gyfer datgeliadau am fwriad i gyflawni hunanladdiad**

Pan fydd person ifanc yn datgelu teimladau ynghylch cyflawni hunanladdiad, dylech ofyn cwestiynau i asesu difrifoldeb eu meddyliau a pha mor debygol yw ei fwriad. Ymhlith y cwestiynau y gallech chi eu gofyn mae:

- Oes gen ti gynllun? (A yw wedi ystyried sut, pan, pryd ac yn y blaen?)
- Beth wyt ti'n mynd i'w wneud ar ôl gadael fan hyn?
- Oes rhywun arall yn gwybod dy fod yn teimlo fel hyn?

Os yw'r atebion i'r cwestiynau hyn yn awgrymu y gallai'r person ifanc geisio lladd ei hun cyn y gellir trefnu asesiad pellach, dylech ofyn am gymorth ar unwaith.

Os yw'r datgeliad yn awgrym o'r ffordd y mae'r person ifanc yn teimlo, yn hytrach na'n fwriad i geisio cyflawni hunanladdiad, dylech drefnu cymorth cyn gynted â phosibl.

# **BWRDD DIOGELU CWM TAF**

Dylech sicrhau eich bod yn cwblhau'r ddogfennaeth berthnasol ar gyfer y digwyddiad hwn fel bod cofnod clir o'r hyn a ddigwyddodd a'r camau a gymerwyd gennych. Dylech roi gwybod i'ch rheolwr llinell a/neu'r arweinydd diogelu fel y bo'n briodol fel eu bod yn ymwybodol eich bod yn gweithio gyda rhywun sy'n hunan-niweidio a sicrhau eich bod yn derbyn y lefel briodol o gymorth a goruchwyliaeth.

**Mewn achosion o hunan-niwed a bwriad i gyflawni hunanladdiad, dylech ymddiried yn eich greddf – os nad ydych yn hapus i'r person ifanc eich gadael dylech geisio cymorth ar unwaith.**

# BWRDD DIOGELU CWM TAF

## Lefelau o Hunan-niwed

### Prif Egwyddorion

Os ydych o'r farn nad yw cyflwr y person ifanc yn sefydlog, dylech ystyried ei gyfeirio at wasanaethau iechyd meddwl arbenigol, un ai'n uniongyrchol neu drwy feddyg teulu'r person ifanc (yn unol â pholisi'ch sefydliad).

Os ydych o'r farn bod yr hunan-niwed yn deillio o gyd-destun bywyd y person ifanc, dylech drafod gyda'ch rheolwr llinell neu gydweithiwr diogelu am gyfeiriad posibl at y gwasanaeth(au) priodol am gymorth pellach.

Dylech sicrhau eich bod yn cwblhau'r ddogfennaeth berthnasol ar gyfer y digwyddiad hwn fel bod cofnod clir o'r hyn a ddigwyddodd a'r camau a gymerwyd gennych. Dylech roi gwybod i'ch rheolwr llinell a/neu'r arweinydd diogelu fel y bo'n briodol fel eu bod yn ymwybodol eich bod yn gweithio gyda rhywun sy'n hunan-niweidio a sicrhau eich bod yn derbyn y lefel briodol o gymorth a goruchwyliaeth.

Dylech fod yn ymwybodol o'ch cyfyngiadau a sicrhau eich diogelwch eich hun, gan geisio cymorth fel y bo angen.

### **Mewn achosion o hunan-niwed a bwriad i gyflawni hunanladdiad, dylech ymddiried yn eich greddf – os nad ydych yn hapus i'r person ifanc eich gadael dylech geisio cymorth ar unwaith.**

Nodir lefelau o hunan-niwed isod. Serch hynny, efallai y byddech yn dymuno ystyried lleoliad yr anaf ar y corff (ee byddai toriadau i fannau rhedweliol fel y gwddf, tu mewn i'r arddwrn a chesail y morddwyd yn cynyddu'r lefel o risg), amllder yr ymddygiad hunan-niweidiol dros gyfnod amser (dyddiol, wythnosol, misol, ac yn y blaen) ac ers faint o amser mae'r person ifanc wedi bod yn hunan-niweidio.

### **ACHOS BRYD – Ymgais ddifrifol i gyflawni hunanladdiad**

#### ***Enghraifft: Gorddos o dabledi***

Mewn achosion pan fydd y plentyn / person ifanc wedi ceisio lladd ei hun, neu fod ganddo doriadau /anafiadau difrifol neu wedi cymryd / cymryd gorddos o gyffuriau o fewn y 48 awr diwethaf mae angen mynd â'r person ifanc i'r

**Adran Ddamweiniau ac Achosion Bryd** ar unwaith. (Felly, mae'n rhaid i

# BWRDD DIOGELU CWM TAF

chi un ai ddeialu 999 neu drefnu i'r plentyn / person ifanc gael ei dywys i'r Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys. Byddai'n ddefnyddiol ffonio'r adran ddamweiniau ac achosion brys i'w rhybuddio os byddwch yn danfon plentyn / person ifanc yno.

Ysbyty'r Tywysog Charles 01685 721721

Ysbyty Brenhinol Morgannwg 01443 443443

O ran cymryd / gorddos cyffuriau:

- Cyhyd ag y bo'n bosibl, dylid sicrhau bod gan y person sy'n mynd gyda'r plentyn / person ifanc i'r adran ddamweiniau ac achosion brys, fanylion am yr hyn sydd wedi'i gymryd, hynny yw, y math o gyffur(iau), faint sydd wedi'i gymryd, faint o'r gloch ac yn y blaen.
- Peidiwch ag annog y plentyn / person ifanc i gyfogi na rhoi rhywbeth iddyn nhw i 'lanhau eu system'.

Dylech sicrhau bod eich rheolwr llinell yn cael gwybod am y sefyllfa a'ch bod yn gweithio yn unol ag unrhyw bolisiau sefydliadol perthnasol.

I'r bobl ifanc hynny o dan 18 oed, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'w rhieni / gofalwyr.

## **LEFEL UCHEL – Risg ddybryd o farwolaeth drwy ddamwain neu fwriad i gyflawni hunanladdiad**

***Er enghraifft: Clwyfau difrifol sydd angen nifer o bwythau a all arwain at anffurfiad neu berygl i fywyd***

***a (Toriadau i fannau rhedweliol fel y gwddf, tu mewn i'r arddwrn, cesail y morddwyd, byddai defnyddio rasel i dorri yn peri risg gynyddol)***

### ***Mynegi bwriad i gyflawni hunanladdiad***

Mewn achosion pan fydd gan weithred o hunan-niwed risg ddifrifol o farwolaeth drwy ddamwain neu lle bydd bwriad i gyflawni hunanladdiad (ee. cynllun hunanladdiad pwrpasol), dylid ceisio cyngor meddygol brys. Hefyd, dylid ceisio cyngor meddygol os oes hanes blaenorol o geisio cyflawni hunanladdiad neu os oes hanes o gamddefnyddio alcohol / sylweddau.

*Dyma'r manylion cyswllt:*

Gwasanaethau brys

999

Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc

# BWRDD DIOGELU CWM TAF

(<18 oed) (9.00 am – 5.00pm)	01443 443008
Tîm Datrys Argyfwng (>18 oed) (Rhondda / Taf)	01443 443443
(Cynon / Merthyr)	01685 723244

Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys:

Ysbyty Tywysog Charles

01685 728301

Ysbyty Brenhinol Morgannwg

01443 443443  
est 4166

Galw Iechyd Cymru

0845 46 47

Tîm Dyletswydd Brys

01443 732665

Dylech sicrhau bod eich rheolwr llinell yn cael gwybod am y sefyllfa a'ch bod yn gweithio yn unol ag unrhyw bolisiau sefydliadol perthnasol.

I'r bobl ifanc hynny o dan 18 oed, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'w rhieni / gofalwyr.

## LEFEL GANOLIG – Gallai achosi marwolaeth drwy ddamwain

***Enghraifft: Gwaedu sylweddol sydd angen pwythau neu ddyfais ddihaint arall i gau clwyf. Fel arfer mae angen trin y clwyfau hyn mewn canolfannau brys neu feddygfa.***

Mewn achosion pan mae tystiolaeth o hunan-niwed heb fwriad i farw ond a allai achosi marwolaeth drwy ddamwain, dylid holi rheolwr llinell ynghylch y lefel o risg. Os oes risg frys (gan gynnwys hanes o gamddefnyddio alcohol / sylweddau) dylid ystyried cysylltu â gwasanaethau diogelu neu iechyd meddwl arbenigol am gyngor.

Os nad oes angen gweithredu ar unwaith, dylech sicrhau eich bod yn cymryd camau dilynol i sicrhau na fydd y sefyllfa wedi gwaethygu a fyddai'n gofyn am gyfeiriad pellach.

I'r bobl ifanc hynny o dan 18 oed, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'w rhieni / gofalwyr.

Dylech sicrhau bod eich rheolwr llinell yn cael gwybod am y sefyllfa a'ch bod yn gweithio yn unol ag unrhyw bolisiau sefydliadol perthnasol.

## LEFEL ISEL – Annhebygol o achosi niwed difrifol neu farwolaeth

***Enghraifft: Anafiadau arwynebol nad oes angen ymyrraeth feddygol heblaw glanhau y man dan sylw***



# BWRDD DIOGELU CWM TAF

Mewn achosion pan mae tystiolaeth o hunan-niwed sy'n annhebygol o achosi niwed difrifol neu farwolaeth, dylai staff holi rheolwr llinell ynghylch y lefel o risg. Os oes risg frys dylid ystyried cysylltu â gwasanaethau diogelu neu iechyd meddwl arbenigol am gyngor.

Os nad oes angen gweithredu ar unwaith, dylech sicrhau eich bod yn cymryd camau dilynol i sicrhau na fydd y sefyllfa wedi gwaethygu a fyddai wedyn yn gofyn am gyfeiriad pellach.

Byddwch ar eich gwylidwriaeth – ydy'r lefel o risg wedi cynyddu?

Gwasanaeth Cwnsela Pobl Ifanc Eye to Eye (RhCT) 01443 204551 / 202940


Gwasanaeth Cwnsela Almond Tree (MT) 01443 411914

Mae hefyd Gwasanaeth Cwnsela ar gael ym mhob ysgol ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Bellach mae cwnsela ar gael drwy bob meddygfa drwy gyfrwng y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol

## Protocol ar gyfer Ymateb i Hunan-niwed ymhlith Pobl Ifanc

### BWRDD DIOGELU CWM TAF



# BWRDD DIOGELU CWM TAF

## Manylion Cyswllt

### Brys – Ymgais ddifrifol i gyflawni hunanladdiad

999

### Lefel Uchel – Risg ddybryd o farwolaeth drwy ddamwain neu fwriad i gyflawni hunanladdiad

Brys 999

### Lefel Ganolig – gallai achosi marwolaeth drwy ddamwain

Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc  
(<18 oed) (pob ardal) (9am – 5pm)

01443 443008

Tîm Datrys Argyfwng (>18 oed)

Rhondda / Taf Elái  
Cynon / Merthyr

01443 443443  
01685 723244

Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys:

Ysbyty Tywysog Charles (ar gyfer Cynon/Merthyr Tudful) 01685 728301

Ysbyty Brenhinol Morgannwg (ar gyfer Rhondda/Taf Elái) 01443 443443

Galw Iechyd Cymru

0845 46 47

### Lefel Isel – annhebygol o achosi niwed difrifol neu farwolaeth

Gwasanaeth Cwnsela Pobl Ifanc Eye to Eye

01443 204551 / 202940

Gwasanaeth Cwnsela Almond Tree

01443 411914

Tîm Dyletswydd Brys (ar gyfer materion gofal cymdeithasol na all aros tan y diwrnod canlynol) 01443 743665

(Gyda'r nos, ar benwythnos a gwyliau banc)

Gwasanaeth Meddygon Teulu Allan o Oriau

0845 601 1186